WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o ‘waith i leihau nifer y tai sydd mewn perygl o lifogydd yn Sir Ddinbych’ – **Cyngor Sir Ddinbych**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1249A2019-20

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Ddinbych fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn rhinwedd eu swyddi unigol, neu o ran unrhyw drydydd parti.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae cod adran 45 yn cyflwyno'r arfer o ran ymdrin â cheisiadau sy'n ddisgwyliedig gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru at swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a ddarparodd y gwaith yn cynnwys Jeremy Evans, Gwilym Bury a Charlotte Owen dan arweiniad Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn cymryd camau addawol i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i leihau'r perygl o lifogydd ond mae angen iddo ystyried ei gamau nesaf er mwyn ymwreiddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ymhellach.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Rhan un: Canfyddiadau'r archwiliad 7

Mae'r Cyngor yn cymryd camau i gydbwyso anghenion presennol a hirdymor drwy ganolbwyntio ar atal llifogydd dros y tymor hir ond mae angen iddo ystyried cynaliadwyedd gwaith y dyfodol 7

Mae'r Cyngor yn deall yr heriau presennol a heriau'r dyfodol mewn perthynas â rheoli'r risg o lifogydd ond, er ei fod yn cydnabod cyfleoedd i ddatblygu dulliau cyflenwol mwy cynaliadwy, nid yw eto yn dangos yn llawn ddull gweithredu sy'n ceisio atal problemau rhag codi yn y dyfodol 8

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull gweithredu integredig wrth gyflawni gwaith ar reoli llifogydd ac mae wedi ystyried sut bydd canlyniadau'r prosiect o fudd i amcanion llesiant ei bartneriaid yn ogystal â'i amcanion llesiant ei hun, ond mae cyfleoedd ar gael i'r Cyngor gryfhau ei ddull gweithredu 9

Mae cydweithio yn gydran allweddol o ddull y Cyngor ac mae wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid wrth ddylunio a darparu amddiffynfeydd rhag llifogydd, ond gellid cryfhau'r cysylltiadau â'r gymuned ffermio a thirfeddianwyr eraill 10

Mae'r Cyngor yn cynnwys rhanddeiliaid mewn modd effeithiol wrth ddylunio a darparu cynlluniau rheoli llifogydd ac mae'n ymatebol i anghenion lleol, ond mae'n cydnabod bod angen gwaith pellach er mwyn cynnwys ei randdeiliaid a dysgu o'i ddull gweithredu hyd yn hyn 11

Rhan dau: Ymateb a chamau gweithredu'r Cyngor 13

Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio 17

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y gwnaethpwyd yr archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) ddyletswydd statudol i archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a. bennu eu hamcanion llesiant; a

b. cymryd camau i'w bodloni.

Diffiniad y Ddeddf o'r egwyddor datblygu cynaliadwy yw gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob etholiad y Cynulliad. Rhaid cyflwyno'r adroddiad cyntaf o'r fath erbyn 2020, cyn etholiad y Cynulliad yn 2021.

3 Yn ystod 2018-19, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd ag archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf, i lywio ei adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol.

4 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad **Myfyrio ar Flwyddyn Un – Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)**. Daeth i'r casgliad fod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf ac yn cymryd camau i newid eu ffordd o weithio.

5 Wrth ddatblygu ein dull o gynnal yr archwiliadau yn ystod 2018-19, gwnaethom ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys trwy ein gwaith peilot yn ystod 2017-18. Gwnaethom weithio'n agos hefyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

6 Fel rhan o'r gwaith rhagarweiniol yn y flwyddyn gyntaf, ystyriwyd sut y bu i gyrff cyhoeddus osod eu hamcanion llesiant, felly prif ganolbwynt y gwaith hwn yw'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

7 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaed gennym rhwng mis Hydref 2018 a mis Chwefror 2019.

8 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o Gynllun Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer 2017-22, sy'n cynnwys canlyniad dinesydd i leihau nifer y tai sydd mewn perygl o lifogydd yn Sir Ddinbych – cam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i fodloni ei amcanion llesiant. Nod y canlyniad yw gweithio gyda phartneriaid er mwyn ymgymryd â nifer o gynlluniau amddiffyn rhag llifogydd erbyn 2022, y disgwylir iddynt ddiogelu 9,000 o dai rhag llifogydd yn yr hirdymor.

9 Ym mis Ionawr 2019, gwnaethom ofyn i'r Cyngor ymateb i'n canfyddiadau, fel y byddai modd eu cynnwys yn yr adroddiad hwn, a chawsom ei gynllun gweithredu mewn ymateb.

## Yr hyn a archwiliwyd

10 Archwiliwyd gennym i ba raddau mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Gwnaethom adolygu gwaith y Cyngor gyda'i bartneriaid i ddatblygu a gweithredu strategaeth leol y Cyngor ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r partner arweiniol fel arfer ar brosiectau mawr ar gyfer amddiffynfeydd rhag llifogydd afonydd ac amddiffynfeydd môr. Caniataodd hyn inni asesu i ba raddau y mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy drwy ei waith i leihau nifer y tai sydd mewn perygl o lifogydd yn Sir Ddinbych ('y cam') er mwyn bodloni ei amcanion llesiant.

11 Mae'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i gyflawni'r canlyniad hwn wedi eu nodi yn strategaeth leol y Cyngor ar gyfer rheoli perygl llifogydd, sy'n amlinellu ei amcanion ar gyfer rheoli llifogydd ac erydu arfordirol ac sy'n disgrifio'r mesurau sydd eu hangen dros y blynyddoedd i ddod er mwyn creu dull gweithredu gwell sy'n fwy cynaliadwy. Mae'r strategaeth yn cydnabod y bydd pwysau ar adnoddau ond yn cynyddu ac y bydd y risg yn cynyddu yn y dyfodol o ganlyniad i ddatblygiadau pellach a'r newid yn yr hinsawdd. Mae amcanion a chanlyniadau wedi'u halinio ag amcanion y strategaeth genedlaethol ac fe'u dosberthir naill ai fel rhai tymor byr (>20 mlynedd) neu rai hirdymor (20-100 mlynedd).

12 Gwnaethom adolygu'r prosesau a ddilynodd y Cyngor wrth benderfynu ar y strategaeth leol ar gyfer rheoli perygl llifogydd a'i rhoi ar waith. Gwnaeth hyn ganiatáu i ni asesu i ba raddau y bu i'r Cyngor ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy.

13 Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd canlynol o weithio':

### Arddangosyn 1: Y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn gosod y 'pum ffordd o weithio' fel y'u diffinnir yn nogfen **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Yr hanfodion**[1] gan Lywodraeth Cymru.

| Y pum ffordd o weithio |
|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd. |

[1] Llywodraeth Cymru, **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Yr hanfodion** (2015)

| Y pum ffordd o weithio |
| --- |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar ei amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Cydweithredu ag unrhyw unigolyn arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) a allai helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cyfranogiad**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

14 Canfu ein harchwiliad y canlynol: **Mae'r Cyngor yn cymryd camau addawol i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i leihau'r perygl o lifogydd ond mae angen iddo ystyried ei gamau nesaf er mwyn ymwreiddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ymhellach.**

# Adroddiad manwl

## Rhan un: Canfyddiadau'r archwiliad

### Mae'r Cyngor yn cymryd camau i gydbwyso anghenion presennol a hirdymor drwy ganolbwyntio ar atal llifogydd dros y tymor hir ond mae angen iddo ystyried cynaliadwyedd gwaith y dyfodol

#### Yr hyn yr edrychom amdano

15 Edrychom am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr o'r anghenion presennol a hirdymor a'r heriau a'r cyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio amserlen briodol;
- adnoddau a ddyrannwyd i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

16 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr ‘hirdymor’ yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Yr hyn a ganfuwyd

17 Nodwyd y cryfderau canlynol gennym:

- Mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar brosiectau peirianneg hirdymor y gallant fethu’n ddiogel ac sy'n cael yr effaith fwyaf, h.y. prosiectau cyfalaf mawr.
- Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd 1,600 o dai yn nwyrain y Rhyl yn elwa o lai o berygl o lifogydd. Mae amrediad o gynlluniau eraill sy'n cael eu datblygu a'r uchelgais yn y pen draw yw y bydd tua 9,000 o dai yn elwa o lai o berygl o lifogydd yn Sir Ddinbych erbyn 2022.
- Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn gwneud defnydd o gyllid grant a ffrydiau ariannu partneriaid i ariannu'r gwaith. Cefnogir prosiectau amddiffyn yr arfordir y Cyngor gan Lywodraeth Cymru drwy ei Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol, sy'n ariannu 75% o'r costau. Ariennir y gweddill gan y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi derbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu saith cynllun yn y dyfodol yn ogystal â chynlluniau mawr i wella amddiffynfeydd arfordirol yn y Rhyl a Phrestatyn. Mae'r cynlluniau ar waith ac mae ganddynt werth amcangyfrifiedig o tua £105 miliwn.

18 Nodwyd y cyfle canlynol gennym:

[2] Gweler Atodiad 1.

- Er bod y Cyngor yn ystyried goblygiadau Brexit ar gyllid lliniaru llifogydd, gan fod rhywfaint o gyllid yn dod o'r Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd, i liniaru risgiau ariannol posibl ynghylch cynaliadwyedd hirdymor gwaith yn y dyfodol – yn enwedig o ystyried y ddibyniaeth ar grantiau cyllid gan Lywodraeth Cymru – dylai'r Cyngor ystyried sut y gall sicrhau cydnerthedd hirdymor gwaith atal llifogydd yn y dyfodol, yn enwedig wrth ystyried rhagfynegiadau diweddar ynghylch newid yn yr hinsawdd a chynnydd yn lefel y môr, a allai wneud cynlluniau'r dyfodol yn anfforddiadwy.

## Mae'r Cyngor yn deall yr heriau presennol a heriau'r dyfodol mewn perthynas â rheoli'r risg o lifogydd ond, er ei fod yn cydnabod cyfleoedd i ddatblygu dulliau cyflenwol mwy cynaliadwy, nid yw eto yn dangos yn llawn ddull gweithredu sy'n ceisio atal problemau rhag codi yn y dyfodol

### Yr hyn yr edrychom amdano

19 Edrychom am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr o’r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu waethygu;
- yr adnoddau a ddyrannwyd i sicrhau y cyflawnir buddion ataliol; a
- monitro ac adolygu pa mor effeithiol mae'r cam yn atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

20 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘atal’ yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

### Yr hyn a ganfuwyd

21 Nodwyd y cryfderau canlynol gennym:

- Mae gan y Cyngor offeryn asesu effaith llesiant y mae'n rhaid i staff ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau ac sydd wedi'i ymgorffori'n drwyadl i mewn i broses adrodd y Cyngor. Mae'r pecyn cymorth yn cael ei fireinio mewn ymateb i adborth.
- Yn aml, mae gofynion ariannu yn nodi bod prosiectau amddiffyn rhag llifogydd yn darparu amddiffyniad hirdymor (100 mlynedd+). Wrth ddatblygu cynlluniau, mae swyddogion yn ystyried effeithiau hirdymor posibl rhagolygon amgylcheddol.
- Mae'r Cyngor yn comisiynu asesiad canlyniadau llifogydd sy'n dangos y perygl o lifogydd o ddŵr afonol, dŵr llanw a dŵr wyneb yn Sir Ddinbych gan

[3] Gweler Atodiad 1.

ddefnyddio data mapio perygl llifogydd ac asesiadau modelu toriadau sy'n seiliedig ar lwfansau newid yn yr hinsawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016. Defnyddir hwn i lywio'r Cynllun Datblygu Lleol a pherygl llifogydd datblygiadau newydd.

- Mae'r Cyngor yn monitro setiau data eiddo sydd mewn perygl o lifogydd sy'n ystyried gwaith atal llifogydd.

22 Nodwyd y cyfleoedd canlynol gennym:

- O ystyried y manteision trawsbynciol a geir yn sgil gwaith atal llifogydd, dylai'r Cyngor ystyried sut y gall ganolbwyntio cyllidebau a buddsoddiadau yn y dyfodol ar raglenni ataliol.
- Dylai'r Cyngor ystyried modelu effaith gwaith atal o ran costau a dylai ystyried sut y gall symud adnoddau tuag at atal ledled y Cyngor yn ei gyfanrwydd.
- Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn dangos dull atal yn y prosiect hwn sy'n creu amodau lle nad yw problemau'n codi yn y dyfodol – er enghraifft, mae'r Cyngor yn ymddangos fel bod ganddo ddiffyg capasiti i roi sylw cynhwysfawr i fioamrywiaeth, sy'n cynnig manteision sydd weithiau'n cynnwys atal llifogydd. Mae'n canolbwyntio ar raglenni a ariennir gan grantiau ar hyn o bryd. Mae'r strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a disgwylir iddi fod yn fwy aliniedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac iddi hyrwyddo mwy o ddefnydd o ddulliau rheoli perygl llifogydd naturiol.

## Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull gweithredu integredig wrth gyflawni gwaith ar reoli llifogydd ac mae wedi ystyried sut bydd canlyniadau'r prosiect o fudd i amcanion llesiant ei bartneriaid yn ogystal â'i amcanion llesiant ei hun, ond mae cyfleoedd ar gael i'r Cyngor gryfhau ei ddull gweithredu

### Yr hyn yr edrychom amdano

23 Edrychom am dystiolaeth o ystyried y canlynol:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

24 Yn ogystal, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘integreiddio’ rydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[4]

### Yr hyn a ganfuwyd

25 Nodwyd y cryfderau canlynol gennym:

- Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gallai'r gwaith rheoli llifogydd gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol.
- Mae'r Cyngor wedi ystyried sut mae'r prosiect o waith rheoli llifogydd yn cyfrannu at ei amcanion llesiant a'i flaenoriaethau ehangach.
- Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda nifer o bartneriaid, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru, i ddatblygu gwaith rheoli llifogydd ac mae wedi ystyried sut y mae'n cyfrannu tuag at amcanion partneriaid.

26 Nodwyd y cyfle canlynol gennym:

- Dylai'r Cyngor ystyried sut i ddatblygu dysgu ynglŷn â manteision a heriau gweithio mewn ffordd fwy integredig a sut y gall gwreiddio'r dull hwn yn gorfforaethol ar draws pob rhan o’r Cyngor.

## Mae cydweithio yn gydran allweddol o ddull y Cyngor ac mae wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid wrth ddylunio a darparu amddiffynfeydd rhag llifogydd, ond gellid cryfhau'r cysylltiadau â'r gymuned ffermio a thirfeddianwyr eraill

### Yr hyn yr edrychom amdano

27 Edrychom am dystiolaeth fod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu i helpu corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw'r cydweithio yn ei helpu ef neu ei randdeiliaid i gyflawni eu hamcanion llesiant.

28 Yn ogystal, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘cydweithio’ yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn. [5]

### Yr hyn a ganfuwyd

29 Nodwyd y cryfderau canlynol gennym:

[4] Gweler Atodiad 1.

[5] Gweler Atodiad 1.

- Mae strategaeth leol y Cyngor ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn nodi pwysigrwydd cydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid i leihau’r perygl o lifogydd, gan gynnwys y rheini sydd mewn perygl o lifogydd yn cymryd cyfrifoldeb dros amddiffyn a helpu eu hunain.
- Mae'r Cyngor yn gallu darparu tystiolaeth o nifer o gynlluniau diweddar lle y mae'n cydweithio'n effeithiol gydag awdurdodau llifogydd lleol eraill er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd yn y sir.
- Mae'r Cyngor yn cynnal trafodaethau â chynghorau eraill yng ngogledd Cymru ynghylch dull cydweithredol o gyflenwi swyddogaethau'r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy trwy ddefnyddio adnoddau presennol ar draws pob un o'r chwe awdurdod a/neu rannu'r gost o gyflogi aelodau newydd o staff.
- Siaradodd partneriaid yn gadarnhaol am y ffordd y mae'r Cyngor wedi'u cynnwys mewn modd ystyrlon wrth ddylunio a gweithredu gwaith atal llifogydd.

30 Nodwyd y cyfleoedd canlynol gennym:

- Dylai'r Cyngor barhau i werthuso ei ddull o gydweithio a dysgu gwersi ohono, a dylai ystyried p'un a yw'n rhannu perchnogaeth ar y prosiect a'i berfformiad â phartneriaid ai peidio.
- Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gallai weithio gyda thirfeddianwyr a ffermwyr i leihau’r perygl o lifogydd trwy dechnegau rheoli tir megis argaeau sy'n gollwng a phlannu coed, ond mae'n credu nad oes ganddo adnoddau digonol ar hyn o bryd i symud hyn ymlaen a chafwyd ychydig iawn o gynnydd yn y maes hwn.
- Mae'r Cyngor yn adolygu sut mae cynlluniau atal llifogydd a sefydlwyd mewn cydweithrediad â'i bartneriaid yn effeithio ar nifer y tai sydd mewn perygl o lifogydd, ond dylai ystyried sut mae cynnwys cylch dysgu i'w helpu i ymgorffori'r pum ffordd o weithio ymhellach wrth osod a chyflawni ei amcanion llesiant.

## Mae'r Cyngor yn cynnwys rhanddeiliaid mewn modd effeithiol wrth ddylunio a darparu cynlluniau rheoli llifogydd ac mae'n ymatebol i anghenion lleol, ond mae'n cydnabod bod angen gwaith pellach er mwyn cynnwys ei randdeiliaid a dysgu o'i ddull gweithredu hyd yn hyn

### Yr hyn yr edrychom amdano

31 Edrychom am dystiolaeth fod y Cyngor wedi:

- nodi pa rai y mae angen iddo eu cynnwys yn y broses o ddylunio a chyflawni'r cam;

- cynnwys y rhanddeiliaid allweddol yn effeithiol yn y broses o ddylunio a chyflawni'r cam;
- defnyddio canlyniadau'r cyfranogiad i lywio'r ffordd y caiff y cam hwn ei ddatblygu a'i gyflawni; a
- cheisio dysgu gwersi a gwella ei ddull o gyfranogi.

32 Yn ogystal, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘cyfranogiad’ yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[6]

## Yr hyn a ganfuwyd

33 Nodwyd y cryfderau canlynol gennym:

- Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau ynghylch cynlluniau rheoli llifogydd fel yn ystod gwaith diweddar yn Llanelwy.
- Ceir enghreifftiau o ganlyniadau ymgysylltu yn cael eu defnyddio i lunio gwaith o ddylunio a datblygu cynlluniau atal llifogydd, fel y gwelir yn nwyrain y Rhyl.
- Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â phreswylwyr ynghylch cynlluniau rheoli llifogydd arfaethedig ac mae wardeiniaid llifogydd gwirfoddol yn darparu cyswllt effeithiol â chymunedau sydd mewn perygl, ond nid oes wardeiniaid yn weithredol ym mhob ardal.
- Mae'r Cyngor yn adolygu ei ddull o gynnwys mewn modd rhagweithiol ac mae'n defnyddio’r broses hon i lywio ei ffyrdd o weithio yn y dyfodol.

34 Nodwyd y cyfleoedd canlynol gennym:

- Dylai'r Cyngor barhau i ddefnyddio'r hyn sy'n cael ei ddysgu o'i waith presennol i ddatblygu'r ffordd y mae'n cynnwys cymunedau ac yn cadw eu sylw a'u cyfranogiad ar ôl cwblhau cynlluniau – er enghraifft, wardeiniaid llifogydd.
- Dylai'r Cyngor ystyried ym mha ffyrdd o bosib na fydd dulliau traddodiadol o gynnwys pobl yn gweithio yn y dyfodol ac ystyried ffyrdd newydd y gellid eu defnyddio gan bobl i gyfathrebu a chydgynnull yn y dyfodol ac effaith y cyfryngau cymdeithasol.
- Dylai'r Cyngor ystyried cryfhau ei ddull o ymgysylltu â phobl ifanc ynglŷn â materion amgylcheddol.

[6] Gweler Atodiad 1.

# Rhan dau: Ymateb a chamau gweithredu’r Cyngor

35 Yn dilyn ein gwaith maes, cyflwynwyd ein canfyddiadau i uwch-swyddogion y Cyngor mewn gweithdy ym mis Chwefror 2019. Yn y gweithdy hwn, dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac, o ganlyniad i'r trafodaethau yn y gweithdy a myfyrio pellach ar ein canfyddiadau, mae'r Cyngor wedi datblygu'r camau gweithredu canlynol dan themâu penodol. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor wrth gyflawni ei gynllun gweithredu, ac i ba raddau y mae'n mynd i'r afael â'r problemau a nodwyd yn ein canfyddiadau.

Arddangosyn 2: Camau’r gweithredu’r Cyngor

| Egwyddorion datblygu cynaliadwy | Cyfleoedd i wella | Cam ymateb |
|---|---|---|
| **Hirdymor** | Er bod y Cyngor yn ystyried goblygiadau Brexit ar gyllid lliniaru llifogydd, gan fod rhywfaint o gyllid yn dod o'r Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd, i liniaru risgiau ariannol posibl ynghylch cynaliadwyedd hirdymor gwaith yn y dyfodol – yn enwedig o ystyried y ddibyniaeth ar grantiau cyllid gan Lywodraeth Cymru. | Bydd y Cyngor yn monitro effaith yn ei gofrestr risg gorfforaethol a chofrestr risg Brexit.<br>Mae cyllid wedi bod yn ansicr o hyd ac mae'n ddibynnol ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru (nid yw'n cael ei ariannu gan gyllid Ewropeaidd). Ceir materion sy'n gysylltiedig ag effeithiau ehangach Brexit: costau adeiladu yw un enghraifft bosibl. Yn ogystal, efallai y bydd trothwy uwch ar gyfer ariannu cynlluniau llifogydd os bydd cyfanswm y dyraniad cyllid ar gyfer pob cynllun yn lleihau.<br>Mae'n flaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol nes 2022. Mae cyllid a blaenoriaethau yn cael eu hystyried yn barhaol gan y Cyngor. |

| Egwyddorion datblygu cynaliadwy | Cyfleoedd i wella | Cam ymateb |
|---|---|---|
| **Hirdymor** | Gallai rhagfynegiadau diweddar ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd a chodiad yn lefel y môr wneud cynlluniau yn y dyfodol yn anfforddiadwy a dylai'r Cyngor ystyried goblygiadau hirdymor hyn ar gyfer lle bydd pobl yn gallu byw yn ddiogel yn Sir Ddinbych. | Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu rhagfynegiadau ynghylch y newid yn yr hinsawdd a chodiad yn lefel y môr a rhannu gwybodaeth.<br>Er mwyn cefnogi gwaith i adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, ymgymerodd y Cyngor ag asesiad er mwyn deall y perygl o lifogydd ar yr arfordir a'r polisi rheoli traethlin.<br>Nid oes angen gweithredu pellach. Bwriad y Cyngor yw 'dal y llinell', a gallwn ddangos hyn trwy ein buddsoddiad mewn cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd dros y degawd diwethaf. |
| **Atal** | O ystyried y manteision trawsbynciol a geir yn sgil gwaith atal llifogydd, dylai'r Cyngor ystyried sut y gall ganolbwyntio cyllidebau a buddsoddiadau yn y dyfodol ar raglenni ataliol. | Mae achos busnes yn cael ei ystyried 'er mwyn cynnal, gwella, gwarchod a diogelu asedau byw Sir Ddinbych ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol'. |
| | Dylai'r Cyngor ystyried modelu effaith gwaith atal o ran costau a dylai ystyried sut y gall symud adnoddau tuag at atal ledled y Cyngor yn ei gyfanrwydd. | Ymgorfforir hyn o fewn Cynllun Corfforaethol y Cyngor ac mae achosion busnes y dyfodol yn cael eu hystyried yn 2019, e.e. prosiectau effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon. |
| **Atal** | Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn dangos dull atal yn y prosiect hwn sy'n creu amodau lle nad yw problemau'n codi yn y dyfodol. Mae'n canolbwyntio ar raglenni a ariennir gan grantiau ar hyn o bryd. Mae'r strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a disgwylir iddi fod yn fwy aliniedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac iddi hyrwyddo mwy o ddefnydd o ddulliau rheoli perygl llifogydd naturiol. | Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch strategaeth genedlaethol newydd a bydd y Cyngor yn adolygu ei strategaeth leol ei hun wedi hynny yn 2021. |

| Egwyddorion datblygu cynaliadwy | Cyfleoedd i wella | Cam ymateb |
|---|---|---|
| **Integreiddio** | Dylai'r Cyngor ystyried sut i ddatblygu dysgu ynglŷn â manteision a heriau gweithio mewn ffordd fwy integredig a sut y gall gwreiddio'r dull hwn yn gorfforaethol ar draws pob rhan o’r Cyngor. | Mae dull integredig y Cyngor wedi'i ymgorffori trwy Fyrddau Rhaglen a bydd yn adolygu eu gwaith yn 2019. |
| **Cydweithio** | Dylai'r Cyngor barhau i werthuso ei ddull o gydweithio a dysgu gwersi ohono, a dylai ystyried p'un a yw'n rhannu perchnogaeth ar y prosiect a'i berfformiad â phartneriaid ai peidio. | Mae dull integredig y Cyngor wedi'i ymgorffori trwy Fyrddau Rhaglen a bydd yn adolygu eu gwaith yn 2019. |
| **Cydweithio** | Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gallai weithio gyda thirfeddianwyr a ffermwyr i leihau’r perygl o lifogydd trwy dechnegau rheoli tir megis argaeau sy'n gollwng a phlannu coed, ond mae'n credu nad oes ganddo adnoddau digonol ar hyn o bryd i symud hyn ymlaen a chafwyd ychydig iawn o gynnydd yn y maes hwn. | Mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu meysydd gwaith eraill ond mae achos busnes yn cael ei ystyried ‘er mwyn cynnal, gwella, gwarchod a diogelu asedau byw Sir Ddinbych ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol’. |
| **Cydweithio** | Mae'r Cyngor yn adolygu sut mae cynlluniau atal llifogydd a sefydlwyd mewn cydweithrediad â'i bartneriaid yn effeithio ar nifer y tai sydd mewn perygl o lifogydd, ond dylai ystyried sut mae cynnwys cylch dysgu i'w helpu i ymgorffori'r pum ffordd o weithio ymhellach wrth osod a chyflawni ei amcanion llesiant. | Mae gwaith myfyrio a gwella parhaus yn parhau ledled y Cyngor. |

| Egwyddorion datblygu cynaliadwy | Cyfleoedd i wella | Cam ymateb |
| --- | --- | --- |
| **Cyfranogiad** | Dylai'r Cyngor barhau i ddefnyddio'r hyn sy'n cael ei ddysgu o'i waith presennol i ddatblygu'r ffordd y mae'n cynnwys cymunedau ac yn cadw eu sylw a'u cyfranogiad ar ôl cwblhau cynlluniau – er enghraifft, wardeiniaid llifogydd. | Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â chymunedau mewn perygl ac mae'n sefydlu prosiect penodol sy'n ymwneud â chynnwys y gymuned yn y Rhyl. |
| | Dylai'r Cyngor ystyried ym mha ffyrdd o bosib na fydd dulliau traddodiadol o gynnwys pobl yn gweithio yn y dyfodol ac ystyried ffyrdd newydd y gellid eu defnyddio gan bobl i gyfathrebu a chydgynnull yn y dyfodol ac effaith y cyfryngau cymdeithasol. | Mae strategaeth ymgysylltu newydd y Cyngor yn ystyried ffyrdd anhraddodiadol o weithio. |
| | Dylai'r Cyngor ystyried cryfhau ei ddull o ymgysylltu â phobl ifanc ynglŷn â materion amgylcheddol. | Mae'r Cyngor yn cydnabod y cyfleoedd i weithio gyda'r Gwasanaethau Ieuenctid a bydd yn ystyried hyn fel rhan o waith ar y strategaeth ymgysylltu newydd. |

# Atodiad 1

## Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

Mae'r tabl isod yn gosod 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u nodi a byddwn yn eu defnyddio i helpu i lywio ein hasesiadau o'r raddfa y gallai cyrff fod yn gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Nid ydym yn bwriadu defnyddio'r dangosyddion fel 'rhestr wirio'. Dylid eu hystyried yn 'ddangosyddion' a fydd yn ein helpu i greu casgliadau, yn hytrach na 'phenderfynyddion' o'r graddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 3: Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn gweithredu'r ffordd hirdymor o weithio yn ei chyfanrwydd? |
|---|
| • Mae dealltwriaeth glir o ystyr 'hirdymor' yng nghyd-destun y Ddeddf<br>• Mae'r corff wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at ei weledigaeth hirdymor<br>• Mae wedi dylunio'r cam i ddwyn manteision byrdymor neu dymor canolig, sy'n cydbwyso â'r effaith dros yr hirdymor (o fewn cyd-destun y prosiect)<br>• Mae wedi dylunio'r cam ar sail dealltwriaeth soffistigedig o'r anghenion a phwysau presennol, a'r rheiny yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau'r dyfodol<br>• O ganlyniad, mae dealltwriaeth gynhwysfawr o risgiau a chyfleoedd y presennol a'r dyfodol<br>• Mae adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision yn y tymor byr yn cael eu cyflawni<br>• Canolbwyntir ar gyflawni canlyniadau, a nodir cerrig milltir / camau cynnydd lle bydd canlyniadau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor<br>• Mae'n agored i ffyrdd newydd o gyflawni pethau a allai helpu i ddwyn manteision yn yr hirdymor<br>• Mae'n rhoi gwerth ar ddeallusrwydd ac yn mabwysiadu dulliau o weithio ar sail tystiolaeth |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn gweithredu'r ffordd ataliol o weithio yn ei chyfanrwydd?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall gwreiddiau problemau fel bod modd trechu cylchoedd negyddol a heriau rhyng-genedlaethol<br>• Mae'r corff yn gweld heriau o safbwynt system gyfan, gan gydnabod a rhoi gwerth ar y manteision hirdymor y gallant eu cyflawni i bobl ac i lefydd<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i weithredoedd ataliol sy'n debygol o gyfrannu at well canlyniadau a gwell defnydd o adnoddau dros yr hirdymor, hyd yn oed pan allai hyn gyfyngu ar y gallu i fodloni rhywfaint o anghenion byrdymor<br>• Mae trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth gweithredoedd ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth geisio am welliannau disgwyliedig o ran canlyniadau a'r defnydd o adnoddau |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn gweithio mewn ffordd 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion llesiant<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn ceisio cyfleoedd yn rhagweithiol i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Mae hyn yn digwydd yn eu gwaith â chyrff cyhoeddus eraill hefyd<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y ddibyniaeth ar draws y sefydliad ar gyflawni'r uchelgais a'r amcanion<br>• Mae diwylliant agored lle caiff gwybodaeth ei rhannu<br>• Mae dealltwriaeth dda o'r ffordd y mae amcanion llesiant a chamau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus<br>• Mae unigolion yn mynd ati'n rhagweithiol i weithio ar draws ffiniau'r sefydliad i gynyddu eu cyfraniad i'r eithaf ar draws y nodau llesiant ac i leihau effeithiau negyddol<br>• Mae'r dull llywodraethu, y strwythurau a'r prosesau, yn ogystal ag ymddygiad, yn hybu hyn |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar lefydd, cymunedau a chanlyniadau yn hytrach na ffiniau sefydliadol<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda o amcanion ei bartneriaid yn ogystal â'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i sbarduno gweithgareddau ar y cyd<br>• Mae gan y corff gydberthnasau cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn rhoi gwerth ar y cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud<br>• Mae'r corff yn ceisio sefydlu prosesau a ffyrdd o weithio ar y cyd, lle bo'n briodol |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Bod â dealltwriaeth o bwy y mae angen eu cynnwys a pham<br>• Myfyrio ar ba mor dda y caiff yr anghenion a'r heriau sy'n wynebu'r bobl hynny eu deall ar hyn o bryd<br>• Gweithio'n gydweithredol a gweithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid yn ffynhonnell wybodaeth hollbwysig a fydd yn helpu i gyflawni gwell canlyniadau<br>• Sicrhau y caiff amrywiaeth lawn y rhanddeiliaid ei chynrychioli a bod modd iddynt gymryd rhan<br>• Bod â chydberthnasau aeddfed a ffyddlon â'i randdeiliaid, lle mae deialog barhaus a chaiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw<br>• Sicrhau bod y rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru